Adroddiadau Cylch Gwaith Estyn
Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru

Teitl yr Adroddiad:

Addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang mewn dysgu oedolion yn y gymuned a gwaith ieuenctid yng Nghymru

Manylion yr Adroddiad:

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi datganiad sefyllfa i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y gwaith a gyflawnir ar hyn o bryd i ddysgwyr dysgu oedolion yn y gymuned a phobl ifanc mewn lleoliadau gwaith ieuenctid ar ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang ac i argymell ffyrdd ymlaen ar gyfer datblygiad y gwaith hwn.

Crynodeb o'r prif ganfyddiadau:

Gwelodd Estyn:

- Yn gyffredinol, bod darparwyr gwaith ieuenctid yn cyflwyno ystod ac ansawdd gwell o ADCDF i ddysgwyr nag y mae darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned, ond bod bron pob darparwr yn cyflawni gwaith sy'n cynnwys elfennau o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae ganddynt bolisïau sefydliadol i wella mentrau datblygu cynaliadwy ac i newid diwylliannau yn y sefydliad. Mae nifer o ddarparwyr yn methu â datblygu dull cadarn, integredig ar gyfer ADCDF yn eu sefydliad a'u cynlluniau datblygu.

- Nid oes gan nifer o ddarparwyr oedolion a gwaith ieuenctid, rhwydweithiau partneriaethau plant a phobl ifanc (PPPhI) a rhwydweithiau dysgu oedolion ddealltwriaeth glir o'r ystod o fanteision addysgol sy'n deillio o gynnwys ADCDF yn eu gwaith. Nid yw rheolwyr strategol yn cynllunio'n ddigon da i sicrhau bod polisïau sefydliadol yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n cynnwys dysgwyr yn cymryd camau gweithredu. Nid yw nifer o ddarparwyr yn gwerthuso effaith ADCDF o fewn eu rhaglenni ac yn aml maent yn aneglur ynghylch yr effaith y caiff eu gwaith ar ddysgwyr.

- Nid oes gan ddarparwyr dysgu oedolion yn y gymuned a darparwyr gwaith ieuenctid ddealltwriaeth glir a chyson o ddiffiniad na diben ADCDF. Mae bron i bob un o'r darparwyr yn gyfarwydd â'r term ADCDF. Fodd bynnag, mae llawer o ddehongliadau o ddibenion ADCDF.

- Dim ond ychydig ddarparwyr sy'n deall y rhyngberthynas rhwng Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn llawn ac sy'n cynllunio'u rhaglenni a'u polisïau i adlewyrchu'r gyd-ddibyniaeth hon fel ei bod yn llywio'u darpariaeth ac yn cael ei hymgorffori yn eu holl ddarpariaeth. Mae llawer o ddarparwyr yn datblygu dealltwriaeth dysgwyr o Ddatblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang. Yn yr achosion gorau, mae'r gwaith hwn yn effeithiol.

- Mae llawer o ddarparwyr yn dibynnu'n ormodol ar waith prosiect ac yn ceisio datblygu ADCDF ar wahân i weithgareddau dysgu eraill. Nid ydynt yn defnyddio darpariaeth graidd yn gyson i ddatblygu cyfleoedd i ddysgwyr wella'u medrau mewn cyfathrebu, meddwl yn feirniadol, a gweithio gydag eraill mewn grwpiau. Nid yw'r rhan fwyaf o ddarparwr yn datblygu ffyrdd o gynnwys dysgwyr wrth wneud dewisiadau a phenderfyniadau am eu dysgu.

- Yn yr achosion gorau, mae gwaith ADCDF gyda dysgwyr iau yn creu cysylltiadau gwell rhwng aelodau hŷn y gymuned â phobl ifanc. Gall y gymuned hŷn yna weld sut y gall pobl ifanc gyfrannu'n gadarnhaol at fywyd cymunedol.

- Yn rhy aml, mae darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned a gwaith ieuenctid yn gweithio'n annibynnol ar ei gilydd ac mae cyflymder y datblygu yn rhy araf. Maent yn aml

yn dyblygu gwaith ac yn methu â rhannu adnoddau.

- Nid yw darparwyr addysg uwch yn gwneud digon i wneud yn siŵr bod cyrsiau sy'n cael eu cynnig i diwtoriaid dysgu oedolion yn y gymuned a staff gwaith ieuenctid yn cynnwys hyfforddiant mewn cyflwyno ADCDF.

- Nid yw hyfforddiant datblygiad proffesiynol a gynigir i staff gan ddarparwyr dysgu oedolion a gwaith ieuenctid bob amser yn integreiddio achredu yn y cyflwyno yn dda. Nid yw staff yn cael digon o anogaeth i ddefnyddio achredu er mwyn cadw cofnod o'u datblygiad hyfforddi eu hunain.

- Nid yw gwefan ADCDF Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cael ei ddefnyddio i'w llawn botensial. Nid yw'r wefan yn gwneud digon, yn benodol, i gysylltu darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned â gwybodaeth gyfredol ac adnoddau priodol ar gyfer eu sector i'w helpu nhw a'u dysgwyr i ddatblygu a gwella'u dealltwriaeth o ADCDF.

- Nid oes digon o adnoddau o ansawdd da ar gael i diwtoriaid dysgu oedolion yn y gwaith a gweithwyr ieuenctid mewn lleoliadau anffurfiol fel y gallant integreiddio ADCDF yn hawdd i gyflwyniad eu cyrsiau a'u sesiynau.

Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A1 cadarnhau'r diffiniad o ADCDF i helpu darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned a gwaith ieuenctid ymgorffori ADCDF yn eu polisi sefydliadol a'u cynlluniau cyflwyno;

Ymateb

Mae'r Uned Strategaeth yn cydnabod bod angen i'r darparwyr hyn fod yn glir o'r hyn y mae'r cysyniad yn ei olygu, cyn y gellir datblygu ADCDF o fewn y maes dysgu oedolion a'r sector ieuenctid.

Mae APADGOS felly'n gwneud gwaith i ddatblygu 'dealltwriaeth gyffredinol' sy'n rhoi eglurhad o ADCDF yn y sector Dysgu Oedolion yn y Gymuned a'r sector ieuenctid ac yn darparu canllawiau i'w ddefnyddio ar lefel sefydliadol yn ogystal â lefel y cwricwlwm. Bydd datblygu pecynnau iechyd a chanllawiau arferion gorau yn sicrhau bod modd datblygu'r gwaith ymhellach ar lefelau sefydliadol yn ogystal â lefelau'r cwricwlwm. .

Argymhelliad 2

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A2 cydweithio â'r rheiny sy'n gyfrifol am ddysgu oedolion yn y gymuned yn Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod ADCDF yn cael ei integreiddio mewn polisi hollgynhwysol ar gyfer darparu dysgu oedolion yng Nghymru.

Ymateb

Bydd yr Uned Strategaeth yn creu cysylltiadau cadarn â'r Is-adran Dysgu Gydol Oes o fewn grŵp SHELL er mwyn mynd ymlaen â'r datblygiad hwn, a fydd yn cynnwys cyfrannu tuag at ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Ddysgu Oedolion yn y Gymuned a gynhelir ym mis Medi.

Mae'r Uned Strategaeth yn cydnabod y gall y sector Dysgu Oedolion yn y Gymuned elwa'n fawr o'r arbenigedd o sectorau eraill megis Addysg Bellach neu ysgolion. Rydym felly wedi paratoi cynnig i ddechrau cydweithio ar draws sectorau er mwyn i'r maes dysgu oedolion yn y gymuned gysylltu â'r maes datblygu polisïau a rhannu arferion da. Bydd y cyllid ar gyfer y datblygiad hwn yn hanfodol i ddarparu'r cynnydd angenrheidiol yn y maes hwn. Mae'r gwaith yn parhau hefyd trwy gyngor sgiliau'r sector, Dysgu Gydol Oes y DU, i greu canllaw defnyddio i gefnogi'r safonau newydd ar gyfer ADCDF. Bydd hyn yn galluogi'r maes Dysgu Oedolion yn

y Gymuned i integreiddio'r safonau hyn o fewn unrhyw bolisi cyffredin yn ogystal â meysydd gwaith eraill.

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A3 gwneud yn siŵr bod darparwyr mewn lleoliadau dysgu oedolion yn y gymuned a lleoliadau gwaith ieuenctid yn deall cyd-ddibyniaeth Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang er mwyn galluogi iddynt gefnogi dysgwyr i gymryd camau;

Ymateb

Trwy gyllid a chyfarwyddyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, bu Gweithwyr Ieuenctid yn cysylltu o fewn hyfforddiant ADCDF am y ddwy flynedd ddiwethaf er mwyn iddynt ddatblygu eu syniadau mewn perthynas â ADCDF o fewn eu gwaith ac i weithio'n fwy effeithiol â phobl ifanc.

Mae cynrychiolaeth dda o ddarparwyr ar y Panel Cynghori â'r grwpiau datblygu rhanddeiliaid newydd. Ar hyn o bryd, mae Dysgu Cymunedol Cymru a'r Gwasanaeth Ieuenctid ar y panel i gefnogi'r camau sydd i'w datblygu o fewn 'Strategaeth Gweithredu' a bydd y grwpiau o randdeiliaid yn sicrhau bod safbwyntiau'r sector yn cael eu sianelu'n briodol i gefnogi dysgwyr.

Bydd APADGOS yn cymryd camau i sicrhau bod ansawdd yr hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu yn cyrraedd y safonau sydd wedi'u cytuno yn genedlaethol ar gyfer ADCDF ar draws yr holl sectorau addysg.

Y bwriad yw trefnu cyfarfodydd o ymarferwyr o fewn y maes Dysgu Oedolion yn y Gymuned a'r sector ieuenctid yn rhanbarthol i wella dealltwriaeth gyffredinol ac i ychwanegu at y mentrau i sefydlu arferion gorau o fewn y sector.

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A4 gwneud yn siŵr bod rhwydweithiau dysgu oedolion a phartneriaethau plant a phobl ifanc yn meddu ar ddealltwriaeth glir o holl fanteision addysgol ADCDF;

Ymateb

Bu'r gwaith yn mynd rhagddo ar ddarparu partneriaethau plant a phobl ifanc â'r wybodaeth gefndirol yn y maes hwn i gefnogi'r cynlluniau sengl, a rhoddwyd ymatebion i gynlluniau drafft unigol dros y tri mis diwethaf.

Mae angen gwneud mwy, a bydd yr Uned Strategaeth yn cydweithio'n agos â grwpiau Plant, Pobl Ifanc ac Effeithiolrwydd Ysgolion a SHELL, yn enwedig, i ddatblygu dulliau o gael mynediad i'r rhwydweithiau hyn trwy gyfarfodydd a rhestrau postio. Hefyd, byddwn yn cysylltu â grwpiau penodol o fewn y partneriaethau megis Cymunedau yn Gyntaf. Trwy weithgor y sector, bydd camau'n cael eu cymryd i ddarparu cyfleoedd datblygu priodol i'r rhwydweithiau a'r partneriaethau hyn.

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A5 gweithio gyda darparwyr i wella mynediad i gyllid ar gyfer datblygiad proffesiynol a sefydliadol;

Ymateb

Bydd yr Uned Strategaeth yn cydweithio gydag Is-adrannau eraill o fewn APADGOS, a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ehangach, i sicrhau bod y cyllid presennol sydd ar gael ar

gyfer datblygu proffesiynol a sefydliadol yn cefnogi agenda ADCDF.

Bydd yr Uned Strategaeth hefyd yn gweithio gyda darparwyr i godi ymwybyddiaeth a phwysigrwydd ADCDF er mwyn iddynt flaenoriaethu'r meysydd gwaith hyn i wella datblygiad sefydliadol. Bydd mwy o gymorth ac ymwybyddiaeth ar gael trwy:

- Gyhoeddiadau a rhestrau postio;
- Cymeryd rhan mewn grwpiau rhanddeiliaid i godi ymwybyddiaeth o ADCDF a'i bwysigrwydd; a
- Datblygiadau ac arferion da a ddarperir trwy sectorau eraill,

Mae'n bwysig i waith ar safonau ADCDF gael eu cwblhau i sicrhau y gellir achredu a chysylltu datblygiad broffesiynol yn briodol i'r datblygiadau o fewn sectorau eraill.

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A7 cefnogi rhwydweithiau dysgu oedolion a phartneriaethau plant a phobl ifanc i ddatblygu ffyrdd o fesur effaith ei gwaith mewn ADCDF;

Ymateb

Bydd datblygu dogfennau 'dealltwriaeth gyffredinol' yn arwain at sicrhau bod dulliau archwilio a dulliau asesu ar gael. Bydd hyn yn sicrhau bod modd mesur y gwaith sy'n cael ei gyflawni gan y partneriaethau a'r rhwydweithiau, a bod modd ei gymharu â gwaith sy'n digwydd mewn sectorau eraill.

Bydd dulliau o fesur effaith i ba raddau y mae'r dulliau hyn wedi'u sefydlu yn y gwaith ar gael trwy:

- Ganlyniadau a thargedau o fewn Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc
- Archwiliadau sy'n digwydd ar lefel awdurdodau lleol, sefydliadau neu ar bynciau penodol
- Canlyniadau clir o fewn y rhaglen Galluogi Cymorth Effeithiol o fewn cylch gwaith cyfnod 2 sy'n ehangu

Hefyd, bydd 'Strategaeth Weithredu' yn cefnogi dull o rannu arferion da yn y maes hwn ar draws pob sector.

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A8 datblygu strategaeth i gefnogi rhwydweithiau dysgu oedolion yn y gymuned a phartneriaethau plant a phobl ifanc er mwyn sicrhau bod mwy o ddatblygiad ADCDF yn cael ei gysylltu ledled Cymru;

Ymateb

Byddwn yn creu cysylltiadau â phob math o waith sy'n cymryd lle trwy'r canllaw arferion 'da', gan wobrwyo mentrau da trwy broses o roi cydnabyddiaeth yn flynyddol a chreu diweddariadau rheolaidd o'r gwaith sy'n digwydd o fewn pob sector.

Mae'n bwysig, fodd bynnag, i ddatblygu strwythurau cymorth clir a pherthnasol i sicrhau bod modd cyflawni ADCDF. Cymerwyd camau i sicrhau bod rhwydweithiau rhanddeiliaid y sector yn gadarn a bydd cynnig yr Uned Strategaeth dros gael y sectorau i gydweithio yn sicrhau bod cymorth ar gael o fewn sector penodol o fewn pob rhanbarth.

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A9 gwella'r defnydd o wefan ADCDF i;

- gysylltu darparwyr ag adnoddau cyfredol a phriodol ar gyfer lleoliadau oedolion a gwaith ieuenctid; a
- rhannu enghreifftiau o arfer da ymysg yr holl ddarparwyr yng Nghymru ac

mewn gwledydd eraill.

Ymateb

Mae APADGOS yn sylweddoli bod angen i'r wybodaeth a ddarperir gennym i'n rhwydweithiau a'n dysgwyr fod o'r safon uchaf. Bydd y gwaith o ddiweddaru'r safle yn dechrau, ac o wneud y cynnwys yn fwy perthnasol i bob sector, a sicrhau bod y tudalennau a ddarperir yn gyfredol. Bwriad yr Uned Strategaeth fydd neilltuo mwy o adnoddau i'r safle hwn yn y dyfodol a pharatoi ar gyfer ail-lansiad yn y misoedd nesaf.

Argymhellion 10-15

Dylai rhwydweithiau dysgu oedolion lleol a phartneriaethau plant a phobl ifanc:

A10 nodi adnoddau ADCDF o ansawdd dda, ar draws pob rhwydwaith, sydd ar gael i diwtoriaid dysgu oedolion yn y gymuned a gweithwyr ieuenctid eu defnyddio wrth gyflwyno; a

A11 gweithio ar y cyd i nodi arfer da mewn ADCDF a rhannu llwyddiant ar draws y rhwydweithiau er mwyn gwneud y mwyaf o effaith eu gwaith.

Dylai darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned a gwaith ieuenctid unigol:

A12 greu mwy o gysylltiadau ar draws rhwydweithiau dysgu oedolion yn y gymuned a gwaith ieuenctid er mwyn gwella gweithio ar y cyd mewn ardaloedd lleol;

A13 cysylltu pob cynllun sefydliadol â strategaeth a chynllun gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ADCDF;

A14 datblygu hyfforddiant ymhellach ar gyfer yr holl staff newydd a'r staff presennol i wella dealltwriaeth o ADCDF ac i ymgorffori ADCDF yn eu gwaith; a

A15 gwneud yn siŵr bod unrhyw hyfforddiant a gynigir i weithwyr yn pwysleisio saith thema allweddol ADCDF (gweler Atodiad 1) fel bod gweithwyr yn gallu gweithredu ar faterion Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn eu gwaith.

Ymateb

Mae argymhellion 10 i 15 yn cyfeirio at sefydliadau penodol sy'n gysylltiedig â dysgu oedolion yn y gymuned a'r sector ieuenctid. Mae APADGOS yn croesawu'r argymhellion hyn a bydd yn cydweithio â'r Rhwydweithiau a nodwyd i'w cyflawni.
Oherwydd bod natur y gwaith o fewn y sectorau hyn ar ffurf agenda anffurfiol â'r dysgwyr yn bennaf, a bod nifer fawr o staff rhan-amser a gwirfoddolwyr, bydd rhai o'r datblygiadau hyn yn fwy heriol nag o fewn sectorau eraill. Mae'r Uned Strategaeth felly'n sylweddoli bod angen ymestyn y camau o fewn y strategaeth tair blynedd gyfredol i sefydlu'r meysydd hyn yn llawn. Yn y tymor byr, gofynnir am ymateb gan y Rhwydweithiau ar faterion penodol sy'n gysylltiedig â'r argymhellion.

Manylion Cyhoeddi:

Cyhoeddwyd yr adroddiad ar wefan Estyn ar 19 Awst.